Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn

**Ysgol Bro Gwaun**
**Heol Dyfed**
**Abergwaun**
**Sir Benfro**
**SA65 9DT**

**Dyddiad yr ymweliad: Medi 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Ceri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Marian Phillips | Cynrychiolydd awdurdod lleol |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Bro Gwaun wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Ebrill 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd arolygwyr Estyn yn ail-ymweld â'r ysgol ymhen rhyw 12mis i arolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, yn enwedig ymhlith bechgyn

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd o ran gwella perfformiad y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas o ran gwella safonau'n gyffredinol yng nghyfnod allweddol 3. Ym mwyafrif y dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, nid yw bechgyn yn perfformio'n ddigon da.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn 2013, fe wnaeth perfformiad ar drothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, ddisgyn islaw'r cyrhaeddiad ar adeg yr arolygiad craidd. Yn sgil y cyrhaeddiad hwn, roedd yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, sef islaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion ac islaw disgwyliadau wedi'u modelu. Mae data dros dro ar gyfer 2014 yn dangos lefel debyg o ran perfformiad yn y dangosydd hwn, gan osod yr ysgol yn y chwarter meincnod isaf eto, ac islaw cyfartaledd y teulu.

Ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad o ran y dangosydd pwnc craidd wedi disgyn islaw hynny a gyflawnwyd adeg yr arolygiad craidd. Fe wnaeth perfformiad yn 2013 osod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion. Dengys data dros dro ar gyfer 2014 ddirywiad pellach o ran y dangosydd hwn, gan osod yr ysgol yn y chwarter meincnod isaf ac islaw cyfartaledd y teulu. Ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad ar drothwy lefel 2 wedi gwella, gan osod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ond islaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion. Mae data dros dro ar gyfer 2014 yn dangos bod yr ysgol wedi cynnal lefel debyg o ran cyrhaeddiad yn y dangosydd hwn, gan ei gosod islaw cyfartaledd ei theulu ac yn y grŵp meincnod is. Bu gwelliant mewn perfformiad o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn 2013, gan osod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg, ond islaw cyfartaledd y teulu. Mae data dros dro ar gyfer 2014 yn dangos dirywiad o ran y dangosydd hwn, islaw'r cyfartaledd y teulu, a chan osod yr ysgol yn

y chwarter meincnod isaf. Ers yr arolygiad craidd, mae cyrhaeddiad wedi gwella o ran trothwy lefel 1. Fodd bynnag, mae'r perfformiad yn dal i osod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg, ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu.

Ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 4 wedi dirywio'n sylweddol. Yn 2013, fe wnaeth y perfformiad osod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ac ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion. Dengys data dros dro ar gyfer 2014 welliant bach o ran y dangosydd hwn, gan roi'r ysgol yn y 25% isaf o ysgolion ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ac ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu.

Adeg yr ymweliad monitro diwethaf, roedd perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 wedi gwella ac wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ond islaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu. Fodd bynnag, mae data dros dro ar gyfer 2014 yn dangos dirywiad o ran y dangosydd hwn, gan osod yr ysgol islaw cyfartaledd y teulu ac yn y chwarter meincnod isaf. Yn 2012 a 2013, fe wnaeth perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 2 osod yr ysgol yn y 25% uchaf ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, a thua'r un fath â chyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, mae data dros dro ar gyfer 2014 yn dangos dirywiad mawr yn y dangosydd hwn, gan osod yr ysgol islaw cyfartaledd y teulu ac yn y chwarter meincnod isaf.

Yn 2013, roedd gwelliant mewn perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, roedd perfformiad o ran y dangosydd hwn islaw cyfartaledd y teulu, ac fe osodwyd yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim. Yn 2014, bu gwelliant mewn perfformiad o ran y dangosydd hwn, ond mae'n parhau yn y chwarter meincnod is ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu.

Yn 2013, roedd gwelliant yng nghyfran y disgyblion yn cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg, ond gosodwyd yr ysgol islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, ac yn y chwarter meincnod isaf. Yn 2014, cynyddodd y gyfran hon ac erbyn hyn mae'r ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg yn ôl cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Yn 2013, roedd cyfran y disgyblion yn cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn mathemateg islaw cyfartaledd y teulu, a gosodwyd yr ysgol yn y chwarter meincnod isaf. Yn 2014, bu gwelliant mewn perfformiad o ran y dangosydd hwn, ond mae'n dal islaw cyfartaledd y teulu ac yn parhau i osod yr ysgol yn y chwarter meincnod isaf.

Fe wnaeth perfformiad mewn gwyddoniaeth wella yn 2014 ond mae'n gosod yr ysgol yn yr hanes is o ysgolion tebyg yn ôl meincnodau prydau ysgol am ddim, ac mae islaw cyfartaledd y teulu. Er 2011, mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith wedi bod yn gyson uchel, ac yn 2014 mae'n gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim.

Mae gweithgor yr ysgol i wella perfformiad bechgyn wedi cyflwyno ystod briodol o weithgareddau fel mireinio strategaethau addysgu i gyflwyno elfen o gystadleuaeth mewn gwersi, ac olrhain cyrhaeddiad bechgyn yn fanwl. Mae'r rhain wedi helpu

arwain at gynnydd addas mewn cyrhaeddiad bechgyn mewn ychydig o feysydd fel mathemateg yng nghyfnod allweddol 4, a Chymraeg yng nghyfnod allweddol 3. Nid yw'r strategaethau hyn, fodd bynnag, wedi bod yn ddigon llwyddiannus i wella perfformiad bechgyn mewn meysydd pwysig fel Saesneg yng nghyfnod allweddol 4, neu'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3.

Mae data dros dro ar gyfer 2014 yn dangos bod y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched o ran trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, wedi lleihau ers yr arolygiad craidd. Fodd bynnag, nid yw perfformiad cyffredinol o ran y dangosydd hwn wedi gwella digon. Dengys data dros dro ar gyfer 2014 fod y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched o ran y dangosydd pwnc craidd wedi lleihau ers cynnal yr arolygiad craidd. Mae perfformiad cyffredinol yn y dangosydd hwn wedi dirywio, fodd bynnag. Mae data dros dro ar gyfer 2014 yn dangos bod y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched o ran trothwy lefel 2 wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â pherfformiad yn y ddwy flynedd flaenorol, ac mae'n fwy nag ydoedd adeg yr arolygiad craidd. Yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn Saesneg wedi cynyddu o gymharu â hynny a welwyd yn yr arolygiad craidd. Mae data dros dro ar gyfer 2014 yn dangos bod bechgyn yn parhau i berfformio'n well na merched mewn mathemateg ar lefel 2. Fodd bynnag, nid yw perfformiad cyffredinol yn y dangosydd hwn wedi gwella digon, ac mae perfformiad merched ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer merched yn y teulu o ysgolion.

Yng nghyfnod allweddol 3, yn 2014, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched o ran y dangosydd pwnc craidd ychydig yn llai nag ydoedd adeg yr ymweliad monitro diwethaf, ond mae gryn dipyn yn fwy nag ydoedd adeg yr arolygiad craidd. Yn 2014, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar lefel 5 neu uwch yn fwy na chyfartaledd y teulu, ac yn fwy nag ydoedd adeg yr arolygiad craidd. Yn 2014, fe wnaeth y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn darllen leihau o gymharu â pherfformiad yn 2013, ond mae'n dal yn fwy na'r bwlch yn y teulu o ysgolion. Yn 2014, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn ysgrifennu a llefaredd ar lefel 5 neu uwch wedi cynyddu er 2013, ac mae'n fwy na'r bwlch yn y teulu. Er 2011, mae perfformiad bechgyn a merched ar lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg mamiaith yn gyson dda iawn, ac yn 2014 nid oes unrhyw fwlch rhwng y rhywiau.

**Argymhelliad 2: Gwella ansawdd llawysgrifen, cyflwyno a sillafu disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas o ran gwella ansawdd llawysgrifen, cyflwyno a sillafu disgyblion. Mae'r ysgol wedi gwneud diwygiadau priodol i'w pholisïau marcio a chyflwyno, ac erbyn hyn caiff y rhain eu defnyddio'n gyson yn y rhan fwyaf o adrannau. Mae monitro llyfrau yn gyson gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi arwain at godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cyflwyno da. Mae lleiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn mynychu 'clwb llawysgrifen' ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi gwneud gwelliannau priodol yn eu llawysgrifen a'u cyflwyno. Mae'r ysgol yn parhau i ddarparu ystod o raglenni ymyrraeth perthnasol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion i wella'u sillafu yng nghyfnod allweddol 3. Maent wedi cael effaith addas ar wella sillafu disgyblion.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno gwers ar wahân ar yr amserlen ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3 i ganolbwyntio ar wella'u sillafu. Mae pob adran yn defnyddio strategaethau buddiol i wella sillafu disgyblion ar ddechrau gwersi penodol ar yr amserlen. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi sylw addas i sillafu termau penodol i bwnc, ac yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu'r medr hwn yn eu marcio. Caiff rhieni arweiniad defnyddiol gan yr ysgol ar sut i helpu'u plant i wella'u sillafu. Mae profion safonedig yn dangos bod dros hanner y disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn gwneud gwelliannau addas yn eu sillafu, ac mae hyn wedi cyfrannu at wella'u darllen a'u hysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 4, mae tystiolaeth o'r ysgol yn dangos bod grwpiau targedig wedi gwneud cynnydd priodol mewn sillafu yn eu hasesiadau rheoledig o ganlyniad i sesiynau cymorth ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith hwn wedi cael digon o effaith ar ddeilliannau mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 4.

**Argymhelliad 3: Cynyddu cwmpas a thrylwyredd hunanarfarnu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas o ran cynyddu cwmpas a thrylwyredd hunanarfarnu. Mae hyn wedi arwain at welliannau addas mewn meysydd fel ansawdd marcio ac adborth i ddisgyblion, a sillafu disgyblion. Hefyd, cafwyd gwelliannau ym mherfformiad y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 3 ac mewn lleiafrif o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant ar ôl hynny wedi cael digon o effaith ar fwyafrif y dangosyddion pwysig yng nghyfnod allweddol 4, nac wedi helpu i wella perfformiad bechgyn.

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr ar bob lefel wedi parhau i gasglu ystod eang o dystiolaeth addas o raglen o arsylwadau gwersi wedi'u trefnu ar y calendr, craffu ar waith disgyblion a thrwy ofyn am farnau disgyblion a rhieni. Mae uwch arweinwyr, gyda chymorth yr awdurdod lleol, wedi parhau i gynnal adolygiadau o adrannau, ac mae'r rhain yn cynnig cyngor defnyddiol i sicrhau gwelliannau.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn cynnwys gwerthusiad addas o safonau ac yn amlygu meysydd pwysig i'w gwella yn yr arweinyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad bob amser yn arfarnu ei darpariaeth yng ngolau ei heffaith ar safonau. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau hunanarfarnu adrannau yn cynnwys dadansoddiadau addas o berfformiad disgyblion. Ond nid yw ychydig o arweinwyr canol yn cymharu perfformiad disgyblion yn eu hadrannau â pherfformiad mewn ysgolion eraill yn ddigon trwyadl. Mae arweinwyr ar bob lefel yn olrhain perfformiad disgyblion yn fanwl. Fodd bynnag, cafodd effaith ymyriadau ychwanegol a gynigiwyd gan yr ysgol i wella perfformiad disgyblion mewn perygl o dangyflawni ei chyfyngu gan bresenoldeb isel disgyblion targedig yn y sesiynau hyn.

**Argymhelliad 4: Gwella cysondeb ac effaith marcio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran gwella cysondeb marcio ar draws yr ysgol. Mae'r gwelliannau hyn wedi cyfrannu tuag at

welliannau addas yng nghyfnod allweddol 3. Er bod ansawdd a chysondeb marcio wedi gwella ym mwyafrif y pynciau, ni chafwyd digon o effaith ar godi safonau mewn meysydd pwysig yng nghyfnod allweddol 4.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn monitro llyfrau a chynllunwyr disgyblion yn rheolaidd ac yn fanwl i wirio bod polisi marcio'r ysgol gyfan yn cael ei weithredu. Mae'r uwch dîm rheoli yn rhoi adborth a phwyntiau gweithredu defnyddiol i adrannau ar ôl y monitro, i sicrhau bod pob aelod o staff yn cymhwyso'r polisi marcio yn gyson ac effeithiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwneud digon i sicrhau bod pob athro yn ymateb i faterion fel gosod targedau priodol ar gyfer gwella, neu sicrhau bod disgyblion yn cwblhau gwaith anorffenedig neu waith a gollwyd.

Mae cyflwyno'r polisi marcio ysgol gyfan a rhagor o hyfforddiant i'r staff wedi gwella dealltwriaeth yr athrawon o bwysigrwydd marcio gofalus ac adborth effeithiol i ddisgyblion ar eu gwaith. Mae llawer o athrawon yn rhoi sylwadau buddiol ac adeiladol i'r disgyblion ar eu gwaith, yn nodi meysydd i'w gwella yn glir ac yn gosod targedau priodol ar gyfer datblygu i'r dyfodol. Mae llawer o athrawon yn nodi gwaith anghyflawn neu anghywir yn llyfrau'r disgyblion, ond nid ydynt yn gwneud yn siŵr bob amser bod disgyblion yn cywiro neu'n cwblhau'r gwaith yn unol â'r cyfarwyddyd.

Mae'r athrawon yn rhoi cyngor defnyddiol i'r disgyblion ar sut i wella'u sillafu a'u gramadeg. Yn y rhan fwyaf o bynciau, mae'r athrawon yn annog trafodaeth addas ar sut i wella ansawdd eu gwaith. Fodd bynnag, mae diffyg pwrpas mewn ychydig o'r trafodaethau hyn am nad ydynt yn canolbwyntio ar feysydd sylfaenol i'w gwella, fel sut i wella medrau penodol i bwnc. Mewn llawer o bynciau, mae'r disgyblion yn arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, ac yn gosod targedau priodol ar gyfer gwella.

**Argymhelliad 5: Datblygu rôl llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas o ran datblygu rôl ei llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol. Mae'r ysgol a'r awdurdod lleol wedi darparu hyfforddiant defnyddiol i lywodraethwyr ar ddadansoddi data perfformiad a sut i ymddwyn fel ffrindiau beirniadol. Mae'r llywodraethwyr wedi herio'r ysgol i gynyddu lefelau presenoldeb, ac wedi cynorthwyo'r ysgol yn dda wrth fynd i'r afael â materion ariannol. Mae'r camau gweithredu hyn wedi cyfrannu at leihau'r diffyg yn y gyllideb, a gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr wedi cyfarfod â thri o'r pedwar o arweinwyr pynciau craidd ac wedi arwain trafodaethau addas am eu cynnydd yn erbyn targedau ysgol gyfan a thargedau adrannau. O ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, mae gan y llywodraethwyr cyswllt ddealltwriaeth well o ddata perfformiad a materion penodol a wynebir gan eu hadrannau cyswllt. Mae'r llywodraethwyr cyswllt yn gefnogol iawn, ond nid yw eu her i'r adrannau wedi bod yn ddigon llwyddiannus o ran sicrhau'r gwelliannau gofynnol mewn meysydd pwysig.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at fodloni argymhellion yr arolygiad nad aethpwyd i'r afael â nhw i raddau helaeth nac yn llawn eto.